

DIOLGELWCH PEIRIANNAU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Mae bron i 1 ym mhob 10 o farwolaethau yn y diwydiant ffermio bob blwyddyn yn digwydd oherwydd damweiniau'n ymwneud â pheiriannau. Mae llawer o ddamweiniau'n digwydd am fod rhywun wedi cyffwrdd partiau sy'n dal i symud naill ai ar beiriant sydd heb ei ddiffodd yn iawn, neu sydd wedi'i ailddechrau.

Rhaid cynnal a chadw peiriannau'n gywir, eu diogelu a sicrhau eu bod yn gweithredu'n iawn a dylai pobl gael hyfforddiant cywir cyn eu defnyddio.



Cofiwch y cyngorion diogelwch canlynol wrth ddefnyddio peiriannau:

- Gwnewch yn siŵr fod y peiriant yn addas ac yn ddiogel ar gyfer y gwaith sydd angen ei wneud
- Archwiliwch y cyfarpar yn rheolaidd
- Gwnewch yn siŵr eich bod wedi'ch hyfforddi'n llawn i ddefnyddio peiriannau/cyfarpar yn ddiogel.
- Rhaid i siafft-giard PTO gael eu gwneud i safon sy'n cael ei chydabod (e.e. BS EN ISO 5674). Rhaid iddynt fod y maint a'r hyd cywir ar gyfer y siafft a pheidio â throï.
- Gwnewch yn siŵr fod y cyfarpar yn addas i'r diben, a'i fod yn cael ei ddefnyddio a'i gynnal yn gywir.
- Cyn gwneud unrhyw waith cynnal a chadw ar beiriant – naill ai mewn gweithdy neu ar y cae – gwnewch yn siŵr ei fod yn ddiogel gweithio arno trwy ddilyn y Weithdrefn 'Stopio'n Ddiogel':
 - Brêc llaw arno.
 - Gêr niwtral.
 - Peiriant wedi'i ddiffodd a'r allwedd wedi'i thynnu.
- Gwisgwch ddillad a chyfarpar diogelu priodol

Rhaid dweud wrth ymwelwyr am unrhyw beryglon posibl – mae dyletswydd gyfreithiol arnoch i sicrhau eu bod yn ddiogel tra'u bod ar y fferm

Gwnewch yn siŵr eich bod chi a'ch gweithwyr wedi cael hyfforddiant digonol ac yn gymwys i ddefnyddio peiriannau. Cysylltwch â Lantra i gael cyngor ar hyfforddiant ar 01982 552646.

**DYLECH DDIFFODD
PEIRIANNAU A THYNNU'R
ALLWEDD **BOB AMSER** PAN
NAD YDYCH YN EU DEFNYDDIO**



Am ragor o wybodaeth am iechyd a diogelwch ar y fferm, ewch i:
www.hse.gov.uk/agriculture